

CORFF CYNRYCHIOLWYR YR EGLWYS YNG NGHYMRU POLISI NEWID YN YR HINSAWDD A DI-GARBON NET

Cyflwyniad

Mae Corff y Cynrychiolwyr yn cydnabod cynnig Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru a wnaed yn Ebrill 2021 yn llawn:

Bod y Corff Llywodraethol yn:

1. Gwneud datganiad Argyfwng Hinsawdd fel a ganlyn:

Rydym yn cydnabod bellach fod angen ymateb byd-eang buan ac ar frys i gynhesu byd-eang. Mae'r ffaith fod atebion helaeth ar gael i liniaru'r argyfwng hinsawdd yn rhywbeth i'w groesawu, gan gynnwys technoleg adnewyddadwy, opsiynau ar gyfer trafniadaeth gynaliadwy ac adeiladau di-garbon.

Rydym yn cefnogi penderfyniadau llywodraethau, cyngorau a sefydliadau ledled Cymru i basio cynigion sy'n datgan bod yna argyfwng hinsawdd ac sy'n gosod targedau allyriadau di-garbon net ar gyfer eu hardaloedd lleol.

Trwy gynllun gweithredu, dylem ymdrechu i gyrraedd sefyllfa o allyriadau di-garbon net ar gyfer gweithgareddau'r Eglwys yng Nghymru cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.

2. Gofyn i Gorff y Cynrychiolwyr baratoi cynllun gweithredu, i'w ystyried gan y Corff Llywodraethol yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2022 neu cyn hynny. Dylai'r cynllun gweithredu nodi sut y gall yr Eglwys yng Nghymru gyfan gyrraedd sefyllfa o allyriadau di-garbon net erbyn 2030 neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ôl hynny.

Mae'r polisi hwn yn nodi sut y bydd Corff y Cynrychiolwyr yn ymateb i'r cynnig hwn.

Polisi Cyffredinol

Bydd Corff y Cynrychiolwyr nawr yn:

- ymgorffori ystyriaethau newid yn yr hinsawdd a chyrraedd sefyllfa ddi-garbon net o fewn ei benderfyniadau gan ei ymddiriedolwyr, pwyllgorau a staff
- sicrhau, cymaint â phosibl, bod ei benderfyniadau'n cael effaith gadarnhaol ar ôl-troed carbon gweithgareddau a reolir yn uniongyrchol gan y sefydliad gyda'r nod o gyrraedd sefyllfa di-garbon net ar eu cyfer erbyn 2030 neu'n gynt
- defnyddio ei ddylanwad yn yr Eglwys yng Nghymru a thu allan i gyflawni uchelgeisiau cynnig y Corff Llywodraethu.

Gweithredu'r Polisi Cyffredinol

Bydd angen gweithredu'r polisi hwn yn y meysydd allweddol canlynol:

1. Lleihau defnydd o ynni
2. Defnyddio'r math iawn o bŵer
3. Teithio gwyrddach
4. Trefniadau cyfarfodydd
5. Defnydd cynaliadwy o dir
6. Caffael nwyddau a gwasanaethau
7. Defnyddio dylanwad i hyrwyddo'r agenda
8. Polisi buddsoddi

Bydd hyn yn cynnwys:

- darparu adnoddau i'r Cynllun Gweithredu y gofynnwyd amdano gan y Corff Llywodraethol i helpu pob sefydliad yn yr Eglwys yng Nghymru i ddatblygu fframwaith clir ar gyfer gweithredu
- adolygu gweithgareddau, drwy Bwyllgorau Corff y Cynrychiolwyr i ddatblygu cynlluniau gweithredu penodol ar gyfer gwneud gwaith Pwyllgorau, yn cynnwys datblygu polisi, hwyluso sefyllfa ddi-garbon a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd
- gwneud perfformiad amgylcheddol yn ffactor allweddol mewn caffael nwyddau a gwasanaethau yn cynnwys caffael, trwsio a gwella eiddo
- ystyried a yw cymorth grant i annog cynnydd gan eraill yn bosibl naill ai drwy ffrydiau cyfredol neu rai newydd
- annog a chefnogi'r eglwys gyfan i gyflawni sefyllfa ddi-garbon. Gallai hyn gynnwys hyfforddiant, arweiniad ac ati
- datblygu ffyrdd newydd ac arloesol i alluogi eglwysi lleol i symud i sefyllfa ddi-garbon a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd
- gwrthod cynigion ar gyfer newid nad ydynt yn symud yr eglwys tuag at sefyllfa ddi-garbon neu'n helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd
- gweithio gyda staff i gynllunio patrymau gwaith a gweithgareddau o amgylch sefyllfa ddi-garbon a newid yn yr hinsawdd
- ystyried yn ofalus effaith cyfarfodydd ar yr amgylchedd a chynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb dim ond pan mae'n gwbl fanteisiol gwneud hynny
- ceisio cyfyngu teithio busnes i deithio hanfodol ac yna drwy'r dull mwy cynaliadwy ac ymarferol bosibl.

J.E. ac A.P.G.
Awst 2021